<table>
<tr><th colspan="4">CYNLLUN GWERS</th></tr>
<tr><th>Pwnc</th><th>Uned</th><th>Gwers</th><th>Cyfnod allweddol</th></tr>
<tr><td>Hanes</td><td>2</td><td>Pwy oedd y Gwrthwynebwyr Cydwybodol?</td><td>3</td></tr>
<tr><td colspan="4">Pwnc: Gwrthwynebwyr cydwybodol</td></tr>
<tr><td colspan="4">Amcanion:<br>• Dadlau eich achos – oedd gwrthwynebu cydwybodol yn iawn neu’n anghywir?<br>• Dysgu pa anawsterau roedd gwrthwynebwyr cydwybodol yn eu hwynebu yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Geiriau allweddol:<br>Rhyfel Byd Cyntaf, gwrthwynebydd cydwybodol, gorfodaeth filwrol, gwasanaeth milwrol.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td>Cyflwyniad/Deunydd Ysgogi Cychwynnol:<br>Llun o wrthwynebwyr cydwybodol yng ngwersyll Dyce. Dechreuwch drwy atgoffa’r plant o’r wers ddiwethaf a thrafod y llun. Ydy’r llun yn dweud unrhyw beth wrthym am wrthwynebwyr cydwybodol?</td><td>Amser<br>5 mun</td></tr>
<tr><td>Dylai’r disgyblion fod wedi llenwi’r ffurflen deddfau gwasanaeth milwrol (1916) yn y wers ddiwethaf. (Sylwch y gallai’r wers hon gymryd mwy o amser gan ddibynnu ar faint o amser y caiff pob disgybl i amddiffyn ei achos)<br><u>Gweithgaredd Un – Tribiwnlys</u><br>Yr athro yw’r barnwr sydd yn penderfynu’n derfynol p’un ai a ddylai gwrthwynebydd cydwybodol gael ei esgusodi o wasanaeth milwrol. Roedd mwy nag un barnwr mewn tribiwnlys fel arfer, felly efallai y gallai rhai disgyblion eistedd gyda’r athro i wneud y penderfyniadau terfynol. Dylai’r disgyblion sefyll yn eu tro i ateb cwestiynau o’r PwerBwynt. Yna dylai’r athro benderfynu ar un o’r pedwar penderfyniad tribiwnlys.<br>1. Cael ei esgusodi’n llwyr o wasanaeth milwrol<br>2. Cael ei esgusodi o wasanaeth milwrol ar yr amod ei fod yn gwneud gwaith sifil o bwysigrwydd cenedlaethol.<br>3. Gwasanaeth Anymladdol ac anfon y gwrthwynebydd i uned anymladdol yn y fyddin<br>4. Gwrthod y cais yn llwyr gan orchymyn y gwrthwynebydd i ymuno â’r fyddin ar unwaith.<br><br>Gofynnwch gwestiynau yn seiliedig ar y ffurflen. Cwestiynau eraill i’w gofyn…<br>1. Pe bai’r Almaenwyr yn ymosod ar (enwch eich tref) a gallech achub bywydau merched a phlant, a fyddech chi’n gwneud hynny?<br>2. Fyddech chi’n barod i ymgymryd â gwasanaeth anymladdol?<br>3. Pe bai rhywun yn ymosod ar eich teulu, fyddech chi’n ymladd i’w hachub nhw?<br><br>Gwnewch benderfyniad cyflym ynglŷn ag a ddylai eu gwrthwynebiad gael ei amddiffyn. Torrwch ar draws rai o’r disgyblion cyn iddynt gael y cyfle i</td><td>Amser<br><br>45-60 mun</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| amddiffyn eu gwrthwynebiad. Doedd dim llawer o gyfle i gael gwrandawiad teg; roedd gwrthwynebwyr cydwybodol yn cael eu trin â gelyniaeth am fod yn anwlatgar ac yn llwfr. Caniatewch rhwng 1-5 munud i bob disgybl - cadwch y tribiwnlysoedd i symud yn gyflym er mwyn pwysleisio'r ffaith nad oedd teimladau'r gwrthwynebydd yn bwysig.<br>Y barnwr (athro) i grynhoi ar ddiwedd yr holl achosion gan ddefnyddio ystadegau sy'n dangos faint gafodd eu gwrthwynebiad wedi ei amddiffyn. Ar ddiwedd y tribiwnlys, gofynnwch a oedd unrhyw un yn credu ei fod wedi cael ei drin yn annheg. Gofynnwch pam y maent yn credu hyn. Yn dilyn y PwerBwynt, eglurwch beth sy'n digwydd nesaf i'r rhai hynny gafodd eu cais i gael ei esgusodi ei wrthod. | |
| **Sesiwn lawn:**<br>Gorffennwch gyda thrafodaeth dosbarth gyflym ar b'un ai a fyddai'r rhai hynny sydd wedi eu gorfodi bellach i gofrestru i ymladd yn gwneud hynny o'u gwirfodd?<br>**Gwaith estynedig:** Gallai'r disgyblion ddechrau cynllunio darn ysgrifenedig i'w asesu dan y teitl 'Diwrnod ym mywyd Gwrthwynebydd Cydwybodol' Objector' (Gweler y daflen waith) | |

**Gwahaniaethu:** Dylid integreiddio disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol i'r wers hon; dylid rhoi rolau i'r disgyblion y maent yn hapus â nhw.
Dylid annog disgyblion mwy galluog a thalentog i drosglwyddo dadl fwy manwl neu argyhoeddedig wrth gyflwyno eu hachos.

**Asesu:**
Gellir asesu disgyblion ar sail eu gallu i ffurfio dadl gan ddefnyddio iaith briodol a defnyddio gwybodaeth berthnasol. Dylai'r disgyblion gymryd rhan mewn asesiad cymheiriaid ar ddiwedd y wers a thrafod effaith y ddadl ar ganlyniad yr achos.

**Adnoddau:**
Pwerbwynt
Ffurflen deddf gwasanaeth milwrol 1916 (gellir dod o hyd iddi ym mhecyn gwers un)
Taflen torri allan ar y math o wrthwynebwyr cydwybodol (gellir dod o hyd iddi ym mhecyn gwers un)

**Cysylltiadau â llythrennedd/rhifedd:**
**Llythrennedd** – Gall y wers hon gysylltu â llythrennedd yn y ffyrdd canlynol:

- *Gofynnir i'r disgyblion siarad yn glir gan ddefnyddio iaith briodol*
- *Casglwch a threfnwch wybodaeth o ffynonellau amrywiol.*
- *Ehangwch ar y syniadau â rhesymau cefnogol.*
- *Dewiswch a threfnwch syniadau a gwybodaeth er mwyn rhoi datganiad clir a llawn*
- *Cyflwynwch achos argyhoeddedig gan ddefnyddio gwybodaeth am y pwnc yn effeithiol*
- *Cyflwynwch bynciau a syniadau yn glir gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio'r hyn y maent yn ei ddweud a sut y maent yn ei ddweud wrth wrandawyr sydd â diddordeb.*
- *Ymateb i gwestiynau a sylwadau'r gwrandäwr yn adeiladol ac yn fanwl.*
- *Ymateb yn ystyriol i syniadau eraill gan ofyn cwestiynau perthnasol.*
- *Gwrando ar eglurhad o brosesau, dilyniannau neu sylwadau ac adnabod y prif bwyntiau yn eu trefn.*

**Rhifedd** – Gall y wers hon gysylltu â rhifedd yn y ffyrdd canlynol:

- *Amseru digwyddiadau a threfnu canlyniadau.*
- *Dod i gasgliad ar sail canlyniadau data a chydnabod y gall rhai casgliadau fod*

*yn gamarweiniol neu'n ansicr.*